

RHESTR O WELLIANNAU WEDI’U DIDOLI MARSHALLED LIST OF AMENDMENTS

Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru) Disused Mine and Quarry Tips (Wales) Bill

Mae’r gwelliannau â * ar eu pwys yn rhai newydd neu’n rhai sydd wedi’u haddasu
Amendments marked * are new or have been altered

Mae gwelliannau a nodir ag ‘R’ yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant
cofrestradwy o dan Reol Sefydlog 2 neu fuddiant perthnasol o dan Reolau Sefydlog 13 neu
17 wrth gyflwyno’r gwelliant.

Amendments marked ‘R’ mean that the Member has declared either a registrable interest
under Standing Order 2 or relevant interest under Standing Orders 13 or 17 when tabling
the amendment.

Caiff y Bil ei ystyried yn y drefn a ganlyn –
The Bill will be considered in the following order –

Section 1	Adran 1
Schedule 1	Atodlen 1
Sections 2 – 48	Adrannau 2 – 48
Schedule 2	Atodlen 2
Section 49	Adran 49
Schedule 3	Atodlen 3
Sections 50 – 88	Adrannau 50 – 88
Long title	Teitl hir

Janet Finch-Saunders

74

Schedule 1, page 51, after line 30, insert –

‘() The corporate plan must set out how the Authority intends to consider biodiversity when discharging its functions under this Act during the planning period.’.

Atodlen 1, tudalen 51, ar ôl llinell 28, mewnosoder –

‘() Rhaid i’r cynllun corfforaethol nodi sut y mae’r Awdurdod yn bwriadu ystyried bioamrywiaeth wrth gyflawni ei swyddogaethau o dan y Ddeddf hon yn ystod y cyfnod cynllunio.’.



Janet Finch-Saunders

75

Schedule 1, page 52, after line 16, insert –

- ‘() The requirement in subsection (1)(a) for the Authority to publish the annual report includes a requirement to publish the annual report on the Authority’s website.’.

Atodlen 1, tudalen 52, ar ôl llinell 17, mewnosoder –

- ‘() Mae’r gofyniad yn is-adran (1)(a) i’r Awdurdod gyhoeddi’r adroddiad blynyddol yn cynnwys gofyniad i gyhoeddi’r adroddiad blynyddol ar wefan yr Awdurdod.’.

Delyth Jewell

88

Schedule 1, page 52, after line 16, insert –

- ‘() The annual report must set out how the Authority has had regard to the principles of sustainable management of natural resources (as defined in section 4 of the Environment (Wales) Act 2016 (anaw 3)) when carrying out its functions under this Act.’.

Atodlen 1, tudalen 52, ar ôl llinell 17, mewnosoder –

- ‘() Rhaid i’r adroddiad blynyddol nodi sut y mae’r Awdurdod wedi rhoi sylw i egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol (fel y’i diffinnir yn adran 4 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (dccc 3)) wrth gyflawni ei swyddogaethau o dan y Ddeddf hon.’.

Huw Irranca-Davies

16

Section 2, page 1, line 14, leave out –

‘Authority’s main objective, in carrying out its functions under this Act, is to ensure that disused tips do not threaten human welfare by reason of their instability.

- (2) In pursuance of its main objective, the Authority must’

and insert –

‘Authority must exercise its functions under this Act with a view to ensuring that disused tips do not threaten human welfare by reason of their instability.

- (2) In exercising its functions under this Act, the Authority must also’.

Adran 2, tudalen 1, llinell 14, hepgorer –

- ‘(1) Prif amcan yr Awdurdod, wrth gyflawni ei swyddogaethau o dan y Ddeddf hon, yw sicrhau nad yw tomenni nas defnyddir yn bygwth lles pobl oherwydd eu hansefydlogrwydd.

- (2) Yn unol â’i brif amcan, rhaid i’r Awdurdod’

a mewnosoder –

- ‘(1) Rhaid i’r Awdurdod arfer ei swyddogaethau o dan y Ddeddf hon gyda golwg ar sicrhau nad yw tomenni nas defnyddir yn bygwth lles pobl oherwydd eu hansefydlogrwydd.

- (2) Wrth arfer ei swyddogaethau o dan y Ddeddf hon, rhaid i’r Awdurdod hefyd’.

Delyth Jewell

2

Page 1, after line 18, insert a new section –

[] The Authority’s duty when exercising its functions

In carrying out its functions under this Act, the Authority must take into account the impact on biodiversity, nature and the environment, to avoid and minimise harm.’.

Tudalen 1, ar ôl llinell 19, mewnosoder adran newydd –

[] Dyletswydd yr Awdurdod wrth arfer ei swyddogaethau

Wrth gyflawni ei swyddogaethau o dan y Ddeddf hon, rhaid i’r Awdurdod ystyried yr effaith ar fioamrywiaeth, natur a’r amgylchedd, er mwyn osgoi a lleihau niwed.’.

Delyth Jewell

3

Page 1, after line 18, insert a new section –

[] The Authority’s duties when exercising its functions

In carrying out its functions under this Act, the Authority must take into account the need to minimise the negative impacts on communities, including but not limited to –

- (a) noise;
- (b) air pollution;
- (c) access to green spaces.’.

Tudalen 1, ar ôl llinell 19, mewnosoder adran newydd –

[] Dyletswyddau’r Awdurdod wrth arfer ei swyddogaethau

Wrth gyflawni ei swyddogaethau o dan y Ddeddf hon, rhaid i’r Awdurdod ystyried yr angen i leihau’r effeithiau negyddol ar gymunedau, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i –

- (a) sŵn;
- (b) llygredd aer;
- (c) mynediad at fannau gwyrdd.’.

Delyth Jewell

4

Page 1, after line 18, insert a new section –

[] The Authority’s duty when exercising its functions

In carrying out its functions under this Act, the Authority must have regard to –

- (a) the most recent report under section 8 of the Environment (Wales) Act 2016 (anaw 3) on the state of natural resources in relation to Wales,
- (b) the most recent future trends report under section 11 of the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 (anaw 2),

- (c) the most recent report under section 23 of the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015 (anaw 2) (future generations report),
- (d) scientific knowledge about climate change,
- (e) technology relevant to climate change, and
- (f) EU and international law and policy relating to climate change (including international agreements on measures designed to limit increases in global average temperatures).’.

Tudalen 1, ar ôl llinell 19, mewnosoder adran newydd –

[] Dyletswydd yr Awdurdod wrth arfer ei swyddogaethau

Wrth gyflawni ei swyddogaethau o dan y Ddeddf hon, rhaid i’r Awdurdod roi sylw i –

- (a) yr adroddiad diweddaraf o dan adran 8 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (dccc 3) ar gyflwr adnoddau naturiol o ran Cymru,
- (b) yr adroddiad tueddiadau tebygol y dyfodol diweddaraf o dan adran 11 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 (dccc 2),
- (c) yr adroddiad diweddaraf o dan adran 23 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 (dccc 2) (adroddiad cenedlaethau’r dyfodol),
- (d) gwybodaeth wyddonol am newid hinsawdd,
- (e) technoleg sy’n berthnasol i newid hinsawdd, ac
- (f) cyfraith a pholisi yr UE a chyfraith a pholisi rhyngwladol sy’n ymwneud â newid hinsawdd (gan gynnwys cytundebau rhyngwladol ar fesurau sydd wedi eu dylunio i gyfyngu ar gynnydd mewn tymheredd cyfartalog byd-eang).’.

Janet Finch-Saunders

32

Page 1, after line 18, insert a new section –

[] The Authority’s duty when exercising its functions

In carrying out its functions, the Authority must seek to promote skills development including through –

- (a) the promotion of apprenticeships, and
- (b) communication with education providers in Wales.’.

Tudalen 1, ar ôl llinell 19, mewnosoder adran newydd –

[] Dyletswydd yr Awdurdod wrth arfer ei swyddogaethau

Wrth gyflawni ei swyddogaethau, rhaid i’r Awdurdod geisio hyrwyddo datblygiad sgiliau gan gynnwys drwy –

- (a) hyrwyddo prentisiaethau, a
- (b) cyfathrebu â darparwyr addysg yng Nghymru.’.

Delyth Jewell

76

Page 1, after line 18, insert a new section –

[] The Authority’s duties when exercising its functions

In carrying out its functions under this Act, the Authority must have regard to the principles of sustainable management of natural resources as defined in section 4 of the Environment (Wales) Act 2016 (anaw 3).’.

Tudalen 1, ar ôl llinell 19, mewnosoder adran newydd –

[] Dyletswyddau’r Awdurdod wrth arfer ei swyddogaethau

Wrth gyflawni ei swyddogaethau o dan y Ddeddf hon, rhaid i’r Awdurdod roi sylw i egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol fel y’i diffinnir yn adran 4 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (dccc 3).’.

Janet Finch-Saunders

33

Section 3, page 2, after line 2, insert –

- ‘() The Welsh Ministers must make regulations about the fees the Authority is able to charge for the provision of information, advice or assistance under subsection (3).
- () Regulations under subsection (*first subsection to be inserted by this amendment*) must set out the amount of any fee and the information, advice or assistance the fee applies to.’.

Adran 3, tudalen 2, ar ôl llinell 2, mewnosoder –

- ‘() Rhaid i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch y ffioedd y mae’r Awdurdod yn gallu eu codi am ddarparu gwybodaeth, cyngor neu gynhorthwy o dan is-adran (3).
- () Rhaid i reoliadau o dan is-adran (*yr is-adran gyntaf i’w mewnosod gan y gwelliant hwn*) nodi swm unrhyw ffi a’r wybodaeth, y cyngor neu’r cynhorthwy y mae’r ffi yn gymwys iddi neu iddo.’.

Janet Finch-Saunders

34

Page 2, after line 16, insert a new section –

[] The Authority’s website

- (1) The Authority must for the purposes of this Act establish and keep up to date a website.
- (2) The Authority’s website must include information which explains the Authority’s functions under this Act.’.

Tudalen 2, ar ôl llinell 17, mewnosoder adran newydd –

[] Gwefan yr Awdurdod

- (1) Rhaid i’r Awdurdod at ddibenion y Ddeddf hon sefydlu gwefan a’i chadw’n gyfredol.
- (2) Rhaid i wefan yr Awdurdod gynnwys gwybodaeth sy’n esbonio swyddogaethau’r Awdurdod o dan y Ddeddf hon.’.

Janet Finch-Saunders

35

Page 2, after line 16, insert a new section –

[] Biodiversity and resilience of ecosystems

The Authority is a public authority for the purposes of section 6 of the Environment (Wales) Act 2016.’.

Tudalen 2, ar ôl llinell 17, mewnosoder adran newydd –

[] Bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau

Mae’r Awdurdod yn awdurdod cyhoeddus at ddibenion adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.’.

Huw Irranca-Davies

17

Section 10, page 3, line 24, leave out –

‘, the Authority may carry out any inspections or other monitoring activities that it considers appropriate.’

and insert –

‘in relation to a tip which is a category 1 tip, the Authority –

- (a) must inspect the tip within 6 months of the tip being recorded in the register as a category 1 tip, and
 - (b) must then inspect the tip –
 - (i) twice within the period of 12 months beginning with the day on which the inspection required by paragraph (a) is completed, and
 - (ii) twice within each subsequent period of 12 months.
- (3) In order to perform its duty under subsection (1) in relation to a tip which is a category 2 tip, the Authority –
- (a) must inspect the tip within 12 months of the tip being recorded in the register as a category 2 tip, and
 - (b) must then inspect the tip –
 - (i) once within the period of 12 months beginning with the day on which the inspection required by paragraph (a) is completed, and
 - (ii) once within each subsequent period of 12 months.
- (4) The Authority may carry out any other monitoring activities (including additional inspections) that it considers appropriate in relation to a tip which is a category 1 tip or a category 2 tip.
- (5) In order to perform its duty under subsection (1) in relation to a tip which is a category 3 tip or category 4 tip, the Authority may carry out any inspections or other monitoring activities that it considers appropriate.
- (6) The Welsh Ministers may by regulations amend subsection (2) or (3) –
- (a) to change any period referred to for the time being in those subsections as the period within which an inspection or inspections (as the case may be) must be carried out;
 - (b) to change, in relation to any such period, the number of inspections which the Authority is required to carry out.’.

Adran 10, tudalen 3, llinell 25, hepgorer –

‘, caiff yr Awdurdod gynnal unrhyw arolygiadau neu weithgareddau monitro eraill y mae’n ystyried eu bod yn briodol.’

a mewnosoder –

‘mewn perthynas â thomen sy’n domen categori 1, rhaid i’r Awdurdod –

- (a) arolygu’r domen o fewn 6 mis ar ôl i’r domen gael ei chofnodi yn y gofrestr fel tomen categori 1, a
 - (b) rhaid iddo yna arolygu’r domen –
 - (i) dwywaith o fewn y cyfnod o 12 mis sy’n dechrau â’r diwrnod y cwblheir yr arolygiad sy’n ofynnol gan baragraff (a), a
 - (ii) dwywaith o fewn pob cyfnod dilynol o 12 mis.
- (3) Er mwyn cyflawni ei ddyletswydd o dan is-adran (1) mewn perthynas â thomen sy’n domen categori 2, rhaid i’r Awdurdod –
- (a) arolygu’r domen o fewn 12 mis ar ôl i’r domen gael ei chofnodi yn y gofrestr fel tomen categori 2, a
 - (b) rhaid iddo yna arolygu’r domen –
 - (i) unwaith o fewn y cyfnod o 12 mis sy’n dechrau â’r diwrnod y cwblheir yr arolygiad sy’n ofynnol gan baragraff (a), a
 - (ii) unwaith o fewn pob cyfnod dilynol o 12 mis.
- (4) Caiff yr Awdurdod gynnal unrhyw weithgareddau monitro eraill (gan gynnwys arolygiadau ychwanegol) y mae’n ystyried eu bod yn briodol mewn perthynas â thomen sy’n domen categori 1 neu’n domen categori 2.
- (5) Er mwyn cyflawni ei ddyletswydd o dan is-adran (1) mewn perthynas â thomen sy’n domen categori 3 neu’n domen categori 4, caiff yr Awdurdod gynnal unrhyw arolygiadau neu weithgareddau monitor eraill y mae’n ystyried eu bod yn briodol.
- (6) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ddiwygio is-adran (2) neu (3) –
- (a) i newid unrhyw gyfnod y cyfeirir ato am y tro yn yr is-adrannau hynny fel y cyfnod y mae rhaid cynnal arolygiad neu arolygiadau (yn ôl y digwydd) ynddo;
 - (b) i newid, mewn perthynas ag unrhyw gyfnod o’r fath, nifer yr arolygiadau y mae’n ofynnol i’r Awdurdod eu cynnal.’.

Janet Finch-Saunders

36

Section 12, page 4, after line 5, insert –

‘(2) For the purposes of subsection (1), an “assessment” must include a visit to the site to undertake an inspection of the disused tip.’.

Adran 12, tudalen 4, ar ôl llinell 5, mewnosoder –

‘(2) At ddibenion is-adran (1), rhaid i “asesiad” gynnwys ymweliad â’r safle i gynnal arolygiad o’r domen nas defnyddir.’.

Huw Irranca-Davies

18

Section 13, page 4, line 9, leave out ‘a report of each assessment.’ and insert –

'and publish a report of each assessment.

- () The Authority may publish a report under subsection (1)(b) in a redacted form if the Authority considers it necessary to do so in order to avoid disclosing information contrary to any prohibition imposed by an enactment or other rule of law.'

Adran 13, tudalen 4, llinell 9, hepgorer 'adroddiad ar bob asesiad.' a mewnosoder –

'a chyhoeddi adroddiad ar bob asesiad.

- () Caiff yr Awdurdod gyhoeddi adroddiad o dan is-adran (1)(b) ar ffurf olygedig os yw'r Awdurdod yn ystyried ei bod yn angenrheidiol gwneud hynny er mwyn osgoi datgelu gwybodaeth yn groes i unrhyw waharddiad a osodir gan ddeddfiad neu reol gyfreithiol arall.'

Delyth Jewell

77

Section 13, page 4, after line 13, insert –

- '() Before sending the programme (including in revised form), to the Welsh Ministers under subsection (3) the Authority must consult –
- (a) such persons as appear to it likely to be affected by the programme,
 - (b) such organisations as appear to it to represent the interests of persons likely to be affected by the programme, and
 - (c) such other persons as it considers appropriate.'

Adran 13, tudalen 4, ar ôl llinell 13, mewnosoder –

- '() Cyn anfon y rhaglen (gan gynnwys ar ffurf ddiwygiedig) at Weinidogion Cymru o dan is-adran (3), rhaid i'r Awdurdod ymgynghori â'r canlynol –
- (a) unrhyw bersonau y mae'n ymddangos bod y rhaglen yn debygol o effeithio arnynt,
 - (b) unrhyw sefydliadau y mae'n ymddangos eu bod yn cynrychioli buddiannau personau y mae'r rhaglen yn debygol o effeithio arnynt, ac
 - (c) unrhyw bersonau eraill y mae'n ystyried eu bod yn briodol.'

Delyth Jewell

78

Section 13, page 4, after line 14, insert –

- '() Where the Welsh Ministers approve the programme with or without modifications they must explain their decision and the reasons for the decision.'

Adran 13, tudalen 4, ar ôl llinell 14, mewnosoder –

- '() Pan fo Gweinidogion Cymru yn cymeradwyo'r rhaglen ag addasiadau neu hebddynt, rhaid iddynt esbonio eu penderfyniad a'r rhesymau dros y penderfyniad.'

Huw Irranca-Davies

19

Section 14, page 4, line 32, leave out 'a report of the assessment.' and insert –

'and publish a report of each assessment.

- (3) The Authority may publish a report under subsection (2)(b) in a redacted form if the Authority considers it necessary to do so in order to avoid disclosing information contrary to any prohibition imposed by an enactment or other rule of law.’.

Adran 14, tudalen 4, llinell 33, hepgorer ‘adroddiad ar yr asesiad.’ a mewnosoder –

‘a chyhoeddi adroddiad ar bob asesiad.

- (3) Caiff yr Awdurdod gyhoeddi adroddiad o dan is-adran (2)(b) ar ffurf olygedig os yw’r Awdurdod yn ystyried ei bod yn angenrheidiol gwneud hynny er mwyn osgoi datgelu gwybodaeth yn groes i unrhyw waharddiad a osodir gan ddeddfiad neu reol gyfreithiol arall.’.

Huw Irranca-Davies

20

Section 16, page 5, line 15, leave out ‘a report of the assessment.’ and insert –

‘and publish a report of each assessment.

- () The Authority may publish a report under subsection (1)(b) in a redacted form if the Authority considers it necessary to do so in order to avoid disclosing information contrary to any prohibition imposed by an enactment or other rule of law.’.

Adran 16, tudalen 5, llinell 17, hepgorer ‘adroddiad ar yr asesiad.’ a mewnosoder –

‘a chyhoeddi adroddiad ar bob asesiad.

- () Caiff yr Awdurdod gyhoeddi adroddiad o dan is-adran (1)(b) ar ffurf olygedig os yw’r Awdurdod yn ystyried ei bod yn angenrheidiol gwneud hynny er mwyn osgoi datgelu gwybodaeth yn groes i unrhyw waharddiad a osodir gan ddeddfiad neu reol gyfreithiol arall.’.

Huw Irranca-Davies

21

Section 17, page 5, line 24, leave out ‘a report of the assessment.’ and insert –

‘and publish a report of each assessment.

- (3) The Authority may publish a report under subsection (2)(b) in a redacted form if the Authority considers it necessary to do so in order to avoid disclosing information contrary to any prohibition imposed by an enactment or other rule of law.’.

Adran 17, tudalen 5, llinell 26, hepgorer ‘adroddiad ar yr asesiad.’ a mewnosoder –

‘a chyhoeddi adroddiad ar bob asesiad.

- (3) Caiff yr Awdurdod gyhoeddi adroddiad o dan is-adran (2)(b) ar ffurf olygedig os yw’r Awdurdod yn ystyried ei bod yn angenrheidiol gwneud hynny er mwyn osgoi datgelu gwybodaeth yn groes i unrhyw waharddiad a osodir gan ddeddfiad neu reol gyfreithiol arall.’.

Janet Finch-Saunders

37

Section 18, page 5, leave out line 31.

Adran 18, tudalen 5, hepgorer llinell 33.

Janet Finch-Saunders

38

Section 20, page 6, after line 16, insert –

- ‘() The Authority must also, as soon as practicable –
- (a) publish the notice of proposed registration in a local newspaper circulating in the locality in which the disused tip is situated,
 - (b) for not less than seven days, display on or near the disused tip, a copy of the notice of proposed registration, and
 - (c) publicise the notice of proposed registration in such manner as the Authority reasonably considers is likely to bring the notice of proposed registration to the attention of a majority of the persons who live at, or otherwise occupy, premises in the vicinity of the disused tip.’.

Adran 20, tudalen 6, ar ôl llinell 17, mewnosoder –

- ‘() Rhaid i’r Awdurdod hefyd, cyn gynted ag y bo’n ymarferol –
- (a) cyhoeddi’r hysbysiad o gofrestriad arfaethedig mewn papur newydd lleol sy’n cylchredeg yn yr ardal y mae’r domen nas defnyddir wedi ei lleoli ynddi,
 - (b) am o leiaf saith niwrnod, arddangos ar y domen nas defnyddir neu’n agos ati, gopi o’r hysbysiad o gofrestriad arfaethedig, ac
 - (c) rhoi cyhoeddusrwydd i’r hysbysiad o gofrestriad arfaethedig mewn unrhyw fodd y mae’r Awdurdod yn ystyried yn rhesymol ei fod yn debygol o ddwyn yr hysbysiad o gofrestriad arfaethedig i sylw mwyafrif o’r personau sy’n byw mewn mangre, neu sydd fel arfer yn meddiannu mangre, yng nghyffiniau’r domen nas defnyddir.’.

Delyth Jewell

79

Section 20, page 6, after line 16, insert –

- ‘() The Authority must also, as soon as practicable, publish a notice of proposed registration on its website.’.

Adran 20, tudalen 6, ar ôl llinell 17, mewnosoder –

- ‘() Rhaid i’r Awdurdod hefyd, cyn gynted ag y bo’n ymarferol, gyhoeddi hysbysiad o gofrestriad arfaethedig ar ei wefan.’.

Delyth Jewell

80

Section 20, page 6, line 29, after ‘representations’, insert ‘, but the amended period must not be less than 14 days’.

Adran 20, tudalen 6, llinell 29, ar ôl ‘sylwadau’, mewnosoder ‘, ond ni chaiff y cyfnod diwygiedig fod yn llai na 14 diwrnod’.

Delyth Jewell

81

Gyda chefnogaeth / Supported by: Janet Finch-Saunders

Section 21, page 6, line 37, leave out ‘a person who was given the notice of proposed registration’ and insert ‘any person’.

Adran 21, tudalen 6, llinell 37, hepgorer ‘berson y rhoddwyd yr hysbysiad o gofrestriad arfaethedig iddo’ a mewnosoder ‘unrhyw berson’.

Janet Finch-Saunders

39

Section 22, page 7, after line 28, insert –

‘() The Authority must also, as soon as practicable –

- (a) publish the notice of proposed deregistration in a local newspaper circulating in the locality in which the disused tip is situated,
- (b) for not less than seven days, display on or near the disused tip, a copy of the notice of proposed deregistration, and
- (c) publicise the notice of proposed deregistration in such manner as the Authority reasonably considers is likely to bring the notice of proposed deregistration to the attention of a majority of the persons who live at, or otherwise occupy, premises in the vicinity of the disused tip.’.

Adran 22, tudalen 7, ar ôl llinell 33, mewnosoder –

‘() Rhaid i’r Awdurdod hefyd, cyn gynted ag y bo’n ymarferol –

- (a) cyhoeddi’r hysbysiad o ddatgofrestriad arfaethedig mewn papur newydd lleol sy’n cylchredeg yn yr ardal y mae’r domen nas defnyddir wedi ei lleoli ynddi,
- (b) am o leiaf saith niwrnod, arddangos ar y domen nas defnyddir neu’n agos ati, gopi o’r hysbysiad o ddatgofrestriad arfaethedig, ac
- (c) rhoi cyhoeddusrwydd i’r hysbysiad o ddatgofrestriad arfaethedig mewn unrhyw fodd y mae’r Awdurdod yn ystyried yn rhesymol ei fod yn debygol o ddwyn yr hysbysiad o ddatgofrestriad arfaethedig i sylw mwyafrif o’r personau sy’n byw mewn mangre, neu sydd fel arall yn meddiannu mangre, yng nghyffiniau’r domen nas defnyddir.’.

Delyth Jewell

82

Section 22, page 7, after line 28, insert –

‘() The Authority must also, as soon as practicable, publish a notice of proposed deregistration on its website.’.

Adran 22, tudalen 7, ar ôl llinell 33, mewnosoder –

‘() Rhaid i’r Awdurdod hefyd, cyn gynted ag y bo’n ymarferol, gyhoeddi hysbysiad o ddatgofrestriad arfaethedig ar ei wefan.’.

Delyth Jewell

83

Gyda chefnogaeth / Supported by: Janet Finch-Saunders

Section 23, page 8, line 14, leave out ‘a person who was given the notice of proposed deregistration’ and insert ‘any person’.

Adran 23, tudalen 8, llinell 14, hepgorer ‘berson y rhoddwyd yr hysbysiad o ddatgofrestriad arfaethedig iddo’ a mewnosoder ‘unrhyw berson’.

Janet Finch-Saunders

40

Section 23, page 8, after line 24, insert –

- ‘() The Authority must also, as soon as practicable –
- (a) publish the decision notice in a local newspaper circulating in the locality in which the disused tip is situated,
 - (b) for not less than seven days, display on or near the disused tip, a copy of the decision notice, and
 - (c) publicise the decision notice in such manner as the Authority reasonably considers is likely to bring the decision notice to the attention of a majority of the persons who live at, or otherwise occupy, premises in the vicinity of the disused tip.’.

Adran 23, tudalen 8, ar ôl llinell 26, mewnosoder –

- ‘() Rhaid i’r Awdurdod hefyd, cyn gynted ag y bo’n ymarferol –
- (a) cyhoeddi’r hysbysiad penderfynu mewn papur newydd lleol sy’n cylchredeg yn yr ardal y mae’r domen nas defnyddir wedi ei lleoli ynnddi,
 - (b) am o leiaf saith niwrnod, arddangos ar y domen nas defnyddir neu’n agos ati, gopi o’r hysbysiad penderfynu, ac
 - (c) rhoi cyhoeddusrwydd i’r hysbysiad penderfynu mewn unrhyw fodd y mae’r Awdurdod yn ystyried yn rhesymol ei fod yn debygol o ddwyn yr hysbysiad penderfynu i sylw mwyafrif o’r personau sy’n byw mewn mangre, neu sydd fel arall yn meddiannu mangre, yng nghyffiniau’r domen nas defnyddir.’.

Huw Irranca-Davies

22

Section 25, page 9, after line 14, insert –

- ‘(3) Before publishing the statement (including in a revised form), the Authority must consult such persons as it considers appropriate.’.

Adran 25, tudalen 9, ar ôl llinell 18, mewnosoder –

- ‘(3) Cyn cyhoeddi’r datganiad (gan gynnwys ar ffurf ddiwygiedig), rhaid i’r Awdurdod ymgynghori â’r personau hynny y mae’n ystyried eu bod yn briodol.’.

Janet Finch-Saunders

41

Section 29, page 10, after line 24, insert –

- ‘() The Authority must also, as soon as practicable –

- (a) publish the notice of a proposed change to the register in a local newspaper circulating in the locality in which the disused tip is situated,
- (b) for not less than seven days, display on or near the disused tip, a copy of the notice of a proposed change to the register, and
- (c) publicise the notice of a proposed change to the register in such manner as the Authority reasonably considers is likely to bring the notice of a proposed change to the register to the attention of a majority of the persons who live at, or otherwise occupy, premises in the vicinity of the disused tip.’.

Adran 29, tudalen 10, ar ôl llinell 27, mewnosoder –

‘() Rhaid i’r Awdurdod hefyd, cyn gynted ag y bo’n ymarferol –

- (a) cyhoeddi’r hysbysiad o newid arfaethedig i’r gofrestr mewn papur newydd lleol sy’n cylchredeg yn yr ardal y mae’r domen nas defnyddir wedi ei lleoli ynnddi,
- (b) am o leiaf saith niwrnod, arddangos ar domen nas defnyddir neu’n agos ati, gopi o’r hysbysiad o newid arfaethedig i’r gofrestr, ac
- (c) rhoi cyhoeddusrwydd i’r hysbysiad o newid arfaethedig i’r gofrestr mewn unrhyw fodd y mae’r Awdurdod yn ystyried yn rhesymol ei fod yn debygol o ddwyn yr hysbysiad o newid arfaethedig i’r gofrestr i sylw mwyafrif o’r personau sy’n byw mewn mangre, neu sydd fel arall yn meddiannu mangre, yng nghyffiniau’r domen nas defnyddir.’.

Delyth Jewell

84

Section 29, page 10, after line 24, insert –

‘() The Authority must also, as soon as practicable, publish a notice of proposed change to the register on its website’.

Adran 29, tudalen 10, ar ôl llinell 27, mewnosoder –

‘() Rhaid i’r Awdurdod hefyd, cyn gynted ag y bo’n ymarferol, gyhoeddi hysbysiad o newid arfaethedig i’r gofrestr ar ei wefan.’.

Janet Finch-Saunders

42

Page 11, after line 2, insert a new section –

[] Consultation with local community

- (1) The Authority must have regard to the need to keep local communities informed about a proposal to make a notifiable change.
- (2) In accordance with subsection (1), the Authority must consider whether there should be consultation with the local community before making a notifiable change.
- (3) In this section, “local community” means such persons who live at, or otherwise occupy, premises in the vicinity of the disused tip.’.

Tudalen 11, ar ôl llinell 2, mewnosoder adran newydd –

[] Ymgynghori â’r gymuned leol

- (1) Rhaid i’r Awdurdod roi sylw i’r angen i roi gwybod i gymunedau lleol am gynnig i wneud newid hysbysadwy.
- (2) Yn unol ag is-adran (1), rhaid i’r Awdurdod ystyried a ddylid ymgynghori â’r gymuned leol cyn gwneud newid hysbysadwy.
- (3) Yn yr adran hon, ystyr “cymuned leol” yw unrhyw bersonau sy’n byw mewn mangre, neu sydd fel arall yn meddiannu mangre, yng nghyffiniau’r domen nas defnyddir.’.

Delyth Jewell

85

Gyda chefnogaeth / Supported by: Janet Finch-Saunders

Section 30, page 11, line 15, leave out ‘a person who was given notice of the proposal’ and insert ‘any person’.

Adran 30, tudalen 11, llinell 17, hepgorer ‘berson y rhoddwyd hysbysiad o’r cynnig iddo’ a mewnosoder ‘unrhyw berson’.

Janet Finch-Saunders

43

Section 30, page 11, after line 24, insert –

- ‘() The Authority must also, as soon as practicable –
- (a) publish the decision notice in a local newspaper circulating in the locality in which the disused tip is situated,
 - (b) for not less than seven days, display on or near the disused tip, a copy of the decision notice, and
 - (c) publicise the decision notice in such manner as the Authority reasonably considers is likely to bring the decision notice to the attention of a majority of the persons who live at, or otherwise occupy, premises in the vicinity of the disused tip.’.

Adran 30, tudalen 11, ar ôl llinell 28, mewnosoder –

- ‘() Rhaid i’r Awdurdod hefyd, cyn gynted ag y bo’n ymarferol –
- (a) cyhoeddi’r hysbysiad penderfynu mewn papur newydd lleol sy’n cylchredeg yn yr ardal y mae’r domen nas defnyddir wedi ei lleoli,
 - (b) am o leiaf saith niwrnod, arddangos ar y domen nas defnyddir neu’n agos ati, gopi o’r hysbysiad penderfynu, ac
 - (c) rhoi cyhoeddusrwydd i’r hysbysiad penderfynu mewn unrhyw fodd y mae’r Awdurdod yn ystyried yn rhesymol ei fod yn debygol o ddwyn yr hysbysiad penderfynu i sylw mwyafrif o’r personau sy’n byw mewn mangre, neu sydd fel arall yn meddiannu mangre, yng nghyffiniau’r domen nas defnyddir.’.

Huw Irranca-Davies

23

Page 12, after line 2, insert a new section –

‘[] **Duty to compile and maintain list of all disused tips**

- (1) The Authority must compile and maintain an electronic list of all disused tips in relation to which an assessment under section 13 (preliminary assessment of all disused tips) has been carried out.
- (2) The Authority must include a disused tip in the list as soon as practicable after completing the assessment referred to in subsection (1) in relation to the tip.
- (3) An entry in the list for a disused tip must include –
 - (a) the name or names by which the tip is commonly known (if any);
 - (b) the location of the tip;
 - (c) a unique identifier given by the Authority to the tip.
- (4) The Authority must ensure that the list can be accessed electronically by members of the public at all reasonable times.’.

Tudalen 12, ar ôl llinell 2, mewnosoder adran newydd –

[] Dyletswydd i lunio a chadw cofrestr o’r holl domenni nas defnyddir

- (1) Rhaid i’r Awdurdod lunio a chadw cofrestr electronig o’r holl domenni nas defnyddir y cynhaliwyd asesiad o dan adran 13 (asesiadau rhagarweiniol o’r holl domenni nas defnyddir) mewn perthynas â hwy.
- (2) Rhaid i’r Awdurdod gynnwys tomen nas defnyddir yn y gofrestr cyn gynted ag y bo’n ymarferol ar ôl cwblhau’r asesiad y cyfeirir ato yn is-adran (1) mewn perthynas â’r domen.
- (3) Rhaid i gofnod yn y gofrestr ar gyfer tomen nas defnyddir gynnwys –
 - (a) enw neu enwau cyffredin y domen (os oes un neu rai);
 - (b) lleoliad y domen;
 - (c) dynodydd unigryw y mae’r Awdurdod wedi ei roi i’r domen.
- (4) Rhaid i’r Awdurdod sicrhau y gall aelodau o’r cyhoedd weld y gofrestr yn electronig ar bob adeg resymol.’.

Janet Finch-Saunders

89

Page 12, after line 2, insert a new section –

[] Identification of disused tips

- (1) The Authority must, by 1 January 2030, identify and compile a list of all disused tips.
- (2) The list of disused tips required by subsection (1) must include the following information –
 - (a) the location of each disused tip, and
 - (b) the potential threat to human welfare by reason of its instability posed by each disused tip.’.

Tudalen 12, ar ôl llinell 2, mewnosoder adran newydd –

[] Nodi tomenni nas defnyddir

- (1) Rhaid i’r Awdurdod, erbyn 1 Ionawr 2030, nodi a llunio rhestr o’r holl domenni nas defnyddir.
- (2) Rhaid i’r rhestr o domenni nas defnyddir sy’n ofynnol gan is-adran (1) gynnwys yr wybodaeth a ganlyn –

- (a) lleoliad pob tomen nas defnyddir, a
- (b) y bygythiad posibl i les pobl oherwydd yr ansefydlogrwydd a berir gan bob tomen nas defnyddir.’.

Janet Finch-Saunders

44

Section 34, page 13, after line 32, insert –

‘() References to the disposal of property in subsection (3) include the sale of coal.’.

Adran 34, tudalen 13, ar ôl llinell 37, mewnosoder –

‘() Mae cyfeiriadau at waredu eiddo yn is-adran (3) yn cynnwys gwerthu glo.’.

Janet Finch-Saunders

45

Section 34, page 13, line 34, after ‘must’, insert ‘ –

() achieve market value for the property, and’.

Adran 34, tudalen 13, llinell 39, hepgorer ‘roi’ a mewnosoder ‘ –

() sicrhau gwerth marchnadol am yr eiddo, a rhoi’.

Delyth Jewell

5

Section 34, page 13, after line 34, insert –

‘() If the property disposed of by an owner of land under subsection (3) is coal, it must not be sold for the purpose of burning.’.

Adran 34, tudalen 13, ar ôl llinell 39, mewnosoder –

‘() Os glo yw’r eiddo a waredir gan berchennog ar dir o dan is-adran (3), ni chaniateir ei werthu at ddiben ei losgi.’.

Janet Finch-Saunders

46

Section 35, page 14, line 8, after ‘notice’ at the second place where it occurs on a line, insert ‘, and

() publish and display a copy of the notice in accordance with subsection (*[subsection to be inserted by amendment 47]*)’.

Adran 35, tudalen 14, llinell 9, ar ôl ‘hysbysiad’ yn yr ail le y mae’n ymddangos, mewnosoder ‘, a

() cyhoeddi ac arddangos copi o’r hysbysiad yn unol ag is-adran (*[is-adran i’w mewnosod gan welliant 47]*)’.

Janet Finch-Saunders

47

Section 35, page 14, after line 31, insert –

‘() Where the Authority gives a notice under section 33, it must also –

- (a) publish the notice in a local newspaper circulating in the locality in which the disused tip is situated,

- (b) for not less than seven days, display on or near the disused tip, a copy of the notice, and
- (c) publicise the notice in such manner as the Authority reasonably considers is likely to bring the notice to the attention of a majority of the persons who live at, or otherwise occupy, premises in the vicinity of the disused tip.’.

Adran 35, tudalen 14, ar ôl llinell 34, mewnosoder –

- ‘() Pan fo’r Awdurdod yn rhoi hysbysiad o dan adran 33, rhaid iddo hefyd –
 - (a) cyhoeddi’r hysbysiad mewn papur newydd lleol sy’n cylchredeg yn yr ardal y mae’r domen nas defnyddir wedi ei lleoli ynddi,
 - (b) am o leiaf saith niwrnod, arddangos ar y domen nas defnyddir neu’n agos ati, gopi o’r hysbysiad, ac
 - (c) rhoi cyhoeddusrwydd i’r hysbysiad mewn unrhyw fodd y mae’r Awdurdod yn ystyried yn rhesymol ei fod yn debygol o ddwyn yr hysbysiad i sylw mwyafrif o’r personau sy’n byw mewn mangre, neu sydd fel arall yn meddiannu mangre, yng nghyffiniau’r domen nas defnyddir.’.

Janet Finch-Saunders

48

Section 35, page 14, line 32, leave out ‘subsection (2)’ and insert ‘this section’.

Adran 35, tudalen 14, llinell 35, hepgorer ‘is-adran (2)’ a mewnosoder ‘yr adran hon’.

Janet Finch-Saunders

90

Section 35, page 14, line 34, leave out ‘give the copies required by’ and insert ‘comply with the requirements of’.

Adran 35, tudalen 14, llinell 37, hepgorer ‘roi’r copïau sy’n ofynnol gan’ a mewnosoder ‘gydymffurfio â gofynion’.

Delyth Jewell

98

Section 36, page 15, line 5, leave out ‘21’ and insert ‘90’.

Adran 36, tudalen 15, llinell 5, hepgorer ‘21’ a mewnosoder ‘90’.

Janet Finch-Saunders

49

Section 36, page 15, after line 29, insert –

- ‘() An application made under subsection (4) must be accompanied by evidence of the inability of the owner of land to meet the costs of the operations required by the notice.’.

Adran 36, tudalen 15, ar ôl llinell 32, mewnosoder –

- ‘() I gyd-fynd â chais a wneir o dan is-adran (4), rhaid cyflwyno tystiolaeth o anallu’r perchennog ar dir i dalu costau’r gweithrediadau sy’n ofynnol gan yr hysbysiad.’.



<i>Bil Tomenni Mwyngloddiau a Chwareli Nas Defnyddir (Cymru) – Rhestr o Welliannu wedi’u Didoli</i>	18
<i>Disused Mine and Quarry Tips (Wales) Bill – Marshalled List of Amendments</i>	18
Janet Finch-Saunders	50
Section 37, page 15, line 34, leave out ‘a person appointed by the Welsh Ministers (an “appointed person”)’ and insert ‘Planning and Environment Decisions Wales (“PEDW”)’.	
Adran 37, tudalen 15, llinell 37, hepgorer ‘berson a benodir gan Weinidogion Cymru (“person penodedig”)’ a mewnosoder ‘Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (“PCAC”)’.	
Janet Finch-Saunders	51
Section 37, page 16, line 1, leave out ‘the appointed person’ and insert ‘PEDW’.	
Adran 37, tudalen 16, llinell 1, hepgorer ‘yw’r person penodedig’ a mewnosoder ‘yw PCAC’.	
Janet Finch-Saunders	52
Section 37, page 16, line 2, leave out ‘the appointed person’ and insert ‘PEDW’.	
Adran 37, tudalen 16, llinell 2, hepgorer ‘y person penodedig’ a mewnosoder ‘PCAC’.	
Janet Finch-Saunders	53
Section 37, page 16, line 4, leave out ‘an appointed person’ and insert ‘PEDW’.	
Adran 37, tudalen 16, llinell 4, hepgorer ‘person penodedig’ a mewnosoder ‘PCAC’.	
Janet Finch-Saunders	54
Section 37, page 16, line 9, leave out ‘the appointed person’ and insert ‘PEDW’.	
Adran 37, tudalen 16, llinell 10, hepgorer ‘y person penodedig’ a mewnosoder ‘PCAC’.	
Janet Finch-Saunders	55
Section 37, page 16, line 12, leave out ‘an appointed person’ and insert ‘PEDW’.	
Adran 37, tudalen 16, llinell 14, hepgorer ‘berson penodedig’ a mewnosoder ‘PCAC’.	
Janet Finch-Saunders	56
Section 37, page 16, line 16, leave out ‘an appointed person’ and insert ‘PEDW’.	
Adran 37, tudalen 16, llinell 18, hepgorer ‘person penodedig’ a mewnosoder ‘PCAC’.	
Janet Finch-Saunders	57
Section 38, page 16, line 25, leave out ‘an appointed person’ and insert ‘PEDW’.	
Adran 38, tudalen 16, llinell 27, hepgorer ‘person penodedig’ a mewnosoder ‘PCAC’.	

Page 16, after line 30, insert a new section –

[] Guidance about appeals

- (1) The Welsh Ministers must publish guidance about the appeals process under section 36.
- (2) The Welsh Ministers may revise guidance published under subsection (1) and must publish the revised guidance.’.

Tudalen 16, ar ôl llinell 32, mewnosoder adran newydd –

[] Canllawiau ynghylch apelau

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau ynghylch y broses apelio o dan adran 36.
- (2) Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio canllawiau a gyhoeddir o dan is-adran (1) a rhaid iddynt gyhoeddi’r canllawiau diwygiedig.’.

Janet Finch-Saunders 59

Section 41, page 17, line 35, leave out ‘a person appointed by the Welsh Ministers (an “appointed person”)’ and insert ‘PEDW’.

Adran 41, tudalen 17, llinell 35, hepgorer ‘Weinidogion Cymru (“person penodedig”)’ a mewnosoder ‘PCAC’.

Janet Finch-Saunders 60

Section 41, page 17, line 37, leave out ‘The appointed person’ and insert ‘PEDW’.

Adran 41, tudalen 17, llinell 37, hepgorer ‘y person penodedig’ a mewnosoder ‘PCAC’.

Janet Finch-Saunders 61

Section 41, page 18, line 2, leave out ‘the appointed person’ and insert ‘PEDW’.

Adran 41, tudalen 18, llinell 2, hepgorer ‘i’r person penodedig’ a mewnosoder ‘i PCAC’.

Janet Finch-Saunders 62

Section 43, page 18, after line 29, insert –

- ‘() References to the disposal of property under subsection (1) include the sale of coal.’.

Adran 43, tudalen 18, ar ôl llinell 33, mewnosoder –

- ‘() Mae cyfeiriadau at waredu eiddo o dan is-adran (1) yn cynnwys gwerthu glo.’.

Janet Finch-Saunders 63

Section 43, page 18, line 30, after ‘must’, insert ‘ –

- () achieve market value for the property, and’.

Adran 43, tudalen 18, llinell 35, hepgorer ‘roi’ a mewnosoder –

- () sicrhau gwerth marchnadol am yr eiddo, a rhoi’.

Delyth Jewell

6

Section 43, page 18, after line 31, insert –

- ‘() If the property disposed of by the Authority under subsection (1) is coal, it must not be sold for the purpose of burning.’

Adran 43, tudalen 18, ar ôl llinell 35, mewnosoder –

- ‘() Os glo yw’r eiddo a waredir gan yr Awdurdod o dan is-adran (1), ni chaniateir ei werthu at ddiben ei losgi.’

Janet Finch-Saunders

64

Section 45, page 19, line 27, after ‘notice’ at the second place where it occurs on a line, insert –

’, and

- () publish and display a copy of the notice in accordance with subsection (*[subsection to be inserted by amendment 65]*).

Adran 45, tudalen 19, llinell 27, ar ôl ‘hysbysiad’ yn yr ail le y mae’n ymddangos, mewnosoder –

’, a

- () cyhoeddi ac arddangos copi o’r hysbysiad yn unol ag is-adran (*[is-adran i’w mewnosod gan welliant 65]*).

Janet Finch-Saunders

65

Section 45, page 20, after line 13, insert –

- ‘() Where the Authority gives a notice under section 44, it must also –

- (a) publish a copy of the notice in a local newspaper circulating in the locality in which the disused tip is situated;
- (b) for not less than seven days, display on or near the disused tip, a copy of the notice; and
- (c) publicise the notice in such manner as the Authority reasonably considers is likely to bring the notice to the attention of a majority of the persons who live at, or otherwise occupy, premises in the vicinity of the disused tip.’

Adran 45, tudalen 20, ar ôl llinell 13, mewnosoder –

- ‘() Pan fo’r Awdurdod yn rhoi hysbysiad o dan adran 44, rhaid iddo hefyd –

- (a) cyhoeddi copi o’r hysbysiad mewn papur newydd lleol sy’n cylchredeg yn yr ardal y mae’r domen nas defnyddir wedi ei lleoli ynddi;
- (b) am o leiaf saith niwrnod, arddangos ar y domen nas defnyddir neu’n agos ati, gopi o’r hysbysiad; ac



- (c) rhoi cyhoeddusrwydd i’r hysbysiad mewn unrhyw fodd y mae’r Awdurdod yn ystyried yn rhesymol ei fod yn debygol o ddwyn yr hysbysiad i sylw mwyafrif o’r personau sy’n byw mewn mangre, neu sydd fel arall yn meddiannu mangre, yng nghyffiniau’r domen nas defnyddir.’.

Janet Finch-Saunders 66

Section 45, page 20, line 14, leave out ‘subsection (2)’ and insert ‘this section’.

Adran 45, tudalen 20, llinell 14, hepgorer ‘is-adran (2)’ a mewnosoder ‘yr adran hon’.

Janet Finch-Saunders 91

Section 45, page 20, line 16, leave out ‘give the copies required by’ and insert ‘comply with the requirements of’.

Adran 45, tudalen 20, llinell 16, hepgorer ‘roi’r copïau sy’n ofynnol gan’ a mewnosoder ‘gydymffurfio â gofynion’.

Janet Finch-Saunders 67

Page 20, after line 17, insert a new section –

[] Welsh Ministers’ power of direction

- (1) Where the Welsh Ministers consider that operations need to be carried out immediately to achieve the following objective, the Welsh Ministers may direct the Authority to carry out those operations.
- (2) The objective is to –
 - (a) prevent or deal with threats to the stability of a disused tip, or
 - (b) stabilise a disused tip or prevent a disused tip from becoming more unstable so as to avoid or reduce threats to human welfare.
- (3) If the Welsh Ministers give a direction under subsection (1), the requirements for the Authority to give notice under section 44 or 45 do not apply.
- (4) Where the Authority carries out operations required by a direction under subsection (1), it will not be liable for breaches of planning or environmental law which occur as a direct result of complying with the direction.
- (5) The Welsh Ministers must publish a direction made under subsection (1).’.

Tudalen 20, ar ôl llinell 18, mewnosoder adran newydd –

[] Pŵer cyfarwyddo Gweinidogion Cymru

- (1) Pan fo Gweinidogion Cymru yn ystyried bod angen cynnal gweithrediadau ar unwaith er mwyn cyflawni’r amcan a ganlyn, caiff Gweinidogion Cymru gyfarwyddo’r Awdurdod i gynnal y gweithrediadau hynny.
- (2) Yr amcan yw –
 - (a) atal bygythiadau i sefydlogrwydd tomen nas defnyddir neu ymdrin â hwy, neu

- (b) sefydlogi tomen nas defnyddir neu atal tomen nas defnyddir rhag dod yn fwy ansefydlog er mwyn osgoi neu leihau bygythiadau i les pobl.
- (3) Os yw Gweinidogion Cymru yn rhoi cyfarwyddyd o dan is-adran (1), nid yw’r gofynion i’r Awdurdod roi hysbysiad o dan adran 44 neu 45 yn gymwys.
- (4) Pan fo’r Awdurdod yn cynnal gweithrediadau sy’n ofynnol gan gyfarwyddyd o dan is-adran (1), ni fydd yn atebol am achosion o dorri cyfraith cynllunio neu gyfraith amgylcheddol sy’n digwydd o ganlyniad uniongyrchol i gydymffurfio â’r cyfarwyddyd.
- (5) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi cyfarwyddyd a wneir o dan is-adran (1).’.

Delyth Jewell 7

Section 46, page 20, line 29, leave out ‘in the 12 years ending immediately before that day’ and insert ‘since the year 1800’.

Adran 46, tudalen 20, llinell 30, hepgorer ‘yn y 12 mlynedd sy’n dod i ben yn union cyn y diwrnod hwnnw’ a mewnosoder ‘ers y flwyddyn 1800’.

Delyth Jewell 8

Section 46, page 20, line 30, leave out ‘12 year’.

Adran 46, tudalen 20, llinell 32, hepgorer ‘o 12 mlynedd’.

Delyth Jewell 9

Section 46, page 20, line 32, leave out ‘12 year’.

Adran 46, tudalen 20, llinell 35, hepgorer ‘o 12 mlynedd’.

Janet Finch-Saunders 68

Page 27, after line 20, insert a new section –

[] Guidance about appeals

- (1) The Welsh Ministers must publish guidance about the appeals process under section 52.
- (2) The Welsh Ministers may revise guidance published under subsection (1) and must publish the revised guidance.’.

Tudalen 27, ar ôl llinell 21, mewnosoder adran newydd –

[] Canllawiau ynghylch apelau

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau ynghylch y broses apelio o dan adran 52.
- (2) Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio canllawiau a gyhoeddir o dan is-adran (1) a rhaid iddynt gyhoeddi’r canllawiau diwygiedig.’.

Janet Finch-Saunders

92

Page 28, after line 8, insert a new section –

‘PART []

DEALING WITH ACTIVITIES THAT DESTABILISE A DISUSED TIP

[] Offence of destabilising a disused tip

- (1) The Welsh Ministers may by regulations create a new criminal offence in relation to activity on a disused tip which destabilises the tip and threatens human welfare.
- (2) Regulations under this section may make provision, amongst other things, for powers to enter land.’.

Tudalen 28, ar ôl llinell 8, mewnosoder adran newydd –

‘RHAN []

YMDRIN Â GWEITHGAREDDAU SY’N ANSEFYDLOGI TOMEN NAS DEFNYDDIR

[] Y drosedd o ansefydlogi tomen nas defnyddir

- (1) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau greu trosedd newydd mewn perthynas â gweithgaredd ar domen nas defnyddir sy’n ansefydlogi’r domen ac yn bygwth lles pobl.
- (2) Caiff rheoliadau o dan yr adran hon wneud darpariaeth, ymhlith pethau eraill, ar gyfer pwerau i fynd ar dir.’.

Janet Finch-Saunders

93

Page 28, after line 8, insert a new section –

‘[] Stop notices

- (1) The Welsh Ministers may by regulations confer on the Authority the power to serve a stop notice on a person in relation to an offence under section [section to be inserted by amendment 92].
- (2) Regulations under subsection (1) may include provision about –
 - (a) the procedure for issuing a stop notice;
 - (b) the provision of completion certificates;
 - (c) appeals against the service of a stop notice;
 - (d) compensation;
 - (e) enforcement.
- (3) Regulations under this section may create offences in connection with a failure to comply with any requirements imposed by or under the regulations.’.

Tudalen 28, ar ôl llinell 8, mewnosoder adran newydd –

‘[] Hysbysiadau stop

- (1) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau roi i’r Awdurdod y pŵer i gyflwyno hysbysiad stop i berson mewn perthynas â throsedd o dan adran [adran i’w mewnosod gan welliant 92].
- (2) Caiff rheoliadau o dan is-adran (1) gynnwys darpariaeth ynghylch –

- (a) y weithdrefn ar gyfer dyroddi hysbysiad stop;
 - (b) darparu tystysgrifau cwblhau;
 - (c) apelau yn erbyn cyflwyno hysbysiad stop;
 - (d) digollediad;
 - (e) gorfodi.
- (3) Caiff rheoliadau o dan yr adran hon greu troseddau mewn cysylltiad â methu â chydymffurfio ag unrhyw ofynion a osodir gan y rheoliadau neu odanynt.’.

Huw Irranca-Davies

24

Page 28, after line 10, insert a new section –

‘Management plans for registered tips

[] Management plans

- (1) The Authority must prepare and maintain a management plan for every disused tip in the register which is a category 1 or category 2 tip.
- (2) The management plan for a disused tip to which subsection (1) applies must be prepared as soon as practicable after the tip is first recorded in the register as a category 1 tip or category 2 tip.
- (3) The Authority may at any time prepare and maintain a management plan for a disused tip in the register which is a category 3 tip or category 4 tip.
- (4) A management plan must set out –
 - (a) how the Authority intends to exercise its functions under this Act in relation to the tip (including details of any information or advice that it intends to give to owners or occupiers of land under section 3);
 - (b) information that the Authority considers may be relevant in an emergency involving the tip;
 - (c) information about the roles and responsibilities of the Authority and other public authorities in such an emergency;
 - (d) how the Authority intends to co-operate with those public authorities in such an emergency.
- (5) A management plan may include any other information that the Authority considers appropriate.’.

Tudalen 28, ar ôl llinell 10, mewnosoder adran newydd –

‘Cynlluniau rheoli ar gyfer tomenni cofrestredig

[] Cynlluniau rheoli

- (1) Rhaid i’r Awdurdod lunio a chadw cynllun rheoli ar gyfer pob tomen nas defnyddir yn y gofrestr sy’n domen categori 1 neu’n domen categori 2.
- (2) Rhaid i’r cynllun rheoli ar gyfer tomen nas defnyddir y mae is-adran (1) yn gymwys iddi gael ei lunio cyn gynted ag y bo’n ymarferol ar ôl i’r domen gael ei chofnodi gyntaf yn y gofrestr fel tomen categori 1 neu domen categori 2.

- (3) Caiff yr Awdurdod ar unrhyw adeg lunio a chadw cynllun rheoli ar gyfer tomen nas defnyddir yn y gofrestr sy’n domen categori 3 neu’n domen categori 4.
- (4) Rhaid i gynllun rheoli nodi –
 - (a) sut y mae’r Awdurdod yn bwriadu arfer ei swyddogaethau o dan y Ddeddf hon mewn perthynas â’r domen (gan gynnwys manylion unrhyw wybodaeth neu gyngor y mae’n bwriadu ei rhoi neu ei roi i berchnogion tir neu feddianwyr ar dir o dan adran 3);
 - (b) gwybodaeth y mae’r Awdurdod yn ystyried y gallai fod yn berthnasol mewn argyfwng sy’n ymwneud â’r domen;
 - (c) gwybodaeth am rolau a chyfrifoldebau’r Awdurdod ac awdurdodau cyhoeddus eraill mewn argyfwng o’r fath;
 - (d) sut y mae’r Awdurdod yn bwriadu cydweithredu â’r awdurdodau cyhoeddus hynny mewn argyfwng o’r fath.
- (5) Caiff cynllun rheoli gynnwys unrhyw wybodaeth arall y mae’r Awdurdod yn ystyried ei bod yn briodol.’.

Delyth Jewell

10

Section 55, page 28, after line 19, insert –

‘(g) the Secretary of State.’.

Adran 55, tudalen 28, ar ôl llinell 19, mewnosoder –

‘(g) yr Ysgrifennydd Gwladol.’.

Delyth Jewell

11

Section 55, page 28, after line 19, insert –

‘(g) the Crown Estate.’.

Adran 55, tudalen 28, ar ôl llinell 19, mewnosoder –

‘(g) Ystad y Goron.’.

Janet Finch-Saunders

94

Page 29, after line 13, insert a new section –

[] Duties of owners to share information

- (1) If an owner of land –
 - (a) becomes aware of a threat to the stability of a disused tip, or evidence of a disused tip’s instability, and
 - (b) considers that the information ought to be shared with the Authority in the interests of avoiding or reducing a threat to human welfare,the owner must give the Authority the information as soon as practicable.
- (2) This section does not require or permit information to be given contrary to any prohibition imposed by an enactment or other rule of law.’.

Tudalen 29, ar ôl llinell 14, mewnosoder adran newydd –

{ [] Dyletswyddau perchnogion i rannu gwybodaeth

- (1) Os yw perchennog ar dir –
 - (a) yn dod yn ymwybodol o fygythiad i sefydlogrwydd tomen nas defnyddir, neu dystiolaeth o ansefydlogrwydd tomen nas defnyddir, a
 - (b) yn ystyried y dylid rhannu’r wybodaeth â’r Awdurdod er mwyn osgoi neu leihau bygythiad i les pobl,rhaid i’r perchennog roi’r wybodaeth i’r Awdurdod cyn gynted ag y bo’n ymarferol.
- (2) Nid yw’r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol nac yn caniatáu i wybodaeth gael ei rhoi yn groes i unrhyw waharddiad a osodir gan ddeddfiad neu reol gyfreithiol arall.’.

Janet Finch-Saunders

95

Page 29, after line 13, insert a new section –

{ [] Penalties in connection with giving information

- (1) A person who is required to give information under section [section to be inserted by amendment 94] commits an offence if the person fails, without reasonable excuse, to give the information.
- (2) A person who is required to give information under section [section to be inserted by amendment 94] commits an offence if the person –
 - (a) gives information which is false or misleading in a material respect, and
 - (b) either –
 - (i) knows that the information is false or misleading, or
 - (ii) is reckless as to whether the information is false or misleading.
- (3) A person who is guilty of an offence under subsection (1) or subsection (2) is liable on summary conviction to a fine.
- (4) A contravention of subsection (1) by the Crown does not make the Crown criminally liable (but see section 28(3) of the Legislation Wales Act 2019 (anaw 4) regarding the liability of persons in the service of the Crown).’.

Tudalen 29, ar ôl llinell 14, mewnosoder adran newydd –

{ [] Cosbau mewn cysylltiad â rhoi gwybodaeth

- (1) Mae person y mae’n ofynnol iddo roi gwybodaeth o dan adran [adran i’w mewnosod gan welliant 94] yn cyflawni trosedd os yw’r person yn methu, heb esgus rhesymol, â rhoi’r wybodaeth.
- (2) Mae person y mae’n ofynnol iddo roi gwybodaeth o dan adran [adran i’w mewnosod gan welliant 94] yn cyflawni trosedd os yw’r person –
 - (a) yn rhoi gwybodaeth sy’n anwir neu yn gamarweiniol mewn modd perthnasol, a
 - (b) naill ai –
 - (i) yn gwybod bod yr wybodaeth yn anwir neu’n gamarweiniol, neu
 - (ii) yn ddi-hid ynghylch pa un a yw’r wybodaeth yn anwir neu’n gamarweiniol.



- (3) Mae person sy’n euog o drosedd o dan is-adran (1) neu is-adran (2) yn agored ar euogfarn ddiannod i ddirwy.
- (4) Nid yw torri is-adran (1) gan y Goron yn gwneud y Goron yn atebol o ran cyfraith trosedd (ond gweler adran 28(3) o Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 (dccc 4) ynghylch atebolrwydd personau sy’n gwasanaethu’r Goron).’.

Janet Finch-Saunders

69

Section 68, page 35, after line 9, insert –

- ‘(3) The Authority must publish a list of the fees chargeable under subsection (2).
- (4) Before publishing the list of fees under subsection (3), the Authority must consult –
 - (a) devolved Welsh authorities (within the meaning of section 157A of the Government of Wales Act 2006), and
 - (b) any other persons it considers appropriate.’.

Adran 68, tudalen 35, ar ôl llinell 10, mewnosoder –

- ‘(3) Rhaid i’r Awdurdod gyhoeddi rhestr o’r ffioedd sy’n daladwy o dan is-adran (2).
- (4) Cyn cyhoeddi’r rhestr o ffioedd o dan is-adran (3), rhaid i’r Awdurdod ymgynghori â’r canlynol –
 - (a) awdurdodau Cymreig datganoledig (o fewn ystyr “devolved Welsh authorities” yn adran 157A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006), a
 - (b) unrhyw bersonau eraill y mae’n ystyried eu bod yn briodol.’.

Huw Irranca-Davies

25

Section 69, page 35, line 11, leave out subsection (1) and insert –

- ‘() The Welsh Ministers must give guidance to the Authority in relation to the exercise of its functions under –
 - (a) section 3(4) (Authority’s power to charge fees);
 - (b) section 10 (Authority’s duty to monitor registered tips);
 - (c) Chapter 2 of Part 2 (preliminary and full assessment of tips by the Authority);
 - (d) section 31 (compensation for damage or disturbance caused by monitoring or assessment activity);
 - (e) Chapter 3 of Part 3 (payments in connection with operations);
 - (f) section [section to be inserted by amendment 24] (management plans).
- () The Welsh Ministers may give guidance to the Authority in relation to the exercise of any of its other functions under this Act.
- () The Authority must have regard to guidance given under subsection ([first subsection to be inserted by this amendment]) or ([second subsection to be inserted by this amendment]) in exercising its functions.’.

Adran 69, tudalen 35, llinell 12, hepgorer is-adran (1) a mewnosoder –

- ‘() Rhaid i Weinidogion Cymru roi canllawiau i’r Awdurdod mewn perthynas ag arfer ei swyddogaethau o dan –

- (a) adran 3(4) (pŵer yr Awdurdod i godi ffioedd);
 - (b) adran 10 (dyletswydd yr Awdurdod i fonitro tomenni cofrestredig);
 - (c) Pennod 2 o Ran 2 (asesiad rhagarweiniol ac asesiad llawn o domenni gan yr Awdurdod);
 - (d) adran 31 (digollediad am ddifrod neu aflonyddu a achosir gan weithgareddau monitro neu asesu);
 - (e) Pennod 3 o Ran 3 (taliadau mewn cysylltiad â gweithrediadau);
 - (f) adran [adran *i’w mewnosod gan welliant 24*] (cynlluniau rheoli).
- () Caiff Gweinidogion Cymru roi canllawiau i’r Awdurdod mewn perthynas ag arfer unrhyw un neu ragor o’i swyddogaethau eraill o dan y Ddeddf hon.
- () Rhaid i’r Awdurdod roi sylw i ganllawiau a roddir o dan is-adran (*[yr is-adran gyntaf i’w mewnosod gan y gwelliant hwn]*) neu (*[yr ail is-adran i’w mewnosod gan y gwelliant hwn]*) wrth arfer ei swyddogaethau.’.

Huw Irranca-Davies

26

Section 69, page 35, line 13, leave out subsection (2) and insert –

- ‘() The Welsh Ministers must give guidance to a person appointed to determine –
- (a) an application under section 36 (application to vary or cancel notice requiring owner to carry out operations), or
 - (b) an application under section 41 (application for reimbursement of owner’s expenditure where notice to carry out operations is cancelled).
- () A person appointed to determine an application referred to in subsection (*[first subsection to be inserted by this amendment]*) must, in exercising functions conferred on the person by or under this Act, have regard to guidance given under that subsection.
- () Before giving guidance under this section, the Welsh Ministers must consult such persons as they consider appropriate.’.

Adran 69, tudalen 35, llinell 14, hepgorer is-adran (2) a mewnosoder –

- ‘() Rhaid i Weinidogion Cymru roi canllawiau i berson a benodir i benderfynu –
- (a) cais o dan adran 36 (cais i amrywio neu ganslo hysbysiad sy’n ei gwneud yn ofynnol i berchennog gynnal gweithrediadau), neu
 - (b) cais o dan adran 41 (cais i ad-dalu gwariant perchennog pan fo hysbysiad i gynnal gweithrediadau yn cael ei ganslo).
- () Rhaid i berson a benodir i benderfynu cais y cyfeirir ato yn is-adran (*[yr is-adran gyntaf i’w mewnosod gan y gwelliant hwn]*), wrth arfer swyddogaethau a roddir i’r person gan y Ddeddf hon neu odani, roi sylw i ganllawiau a roddir o dan yr is-adran honno.
- () Cyn rhoi canllawiau o dan yr adran hon, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â’r personau hynny y maent yn ystyried eu bod yn briodol.’.

Janet Finch-Saunders

70

Section 69, page 35, line 13, leave out –

- ‘A person appointed by the Welsh Ministers to determine –

- (a) an application under section 36 (application to vary or cancel notice requiring owner to carry out operations), or
- (b) an application under section 41 (application for reimbursement of owner’s expenditure where notice to carry out operations is cancelled),

must have regard to guidance given by the Welsh Ministers in exercising functions conferred on the person’

and insert –

‘PEDW must have regard to guidance given by the Welsh Ministers in exercising functions conferred on it’.

Adran 69, tudalen 35, llinell 14, hepgorer –

‘person a benodir gan Weinidogion Cymru i benderfynu –

- (a) cais o dan adran 36 (cais i amrywio neu ganslo hysbysiad sy’n ei gwneud yn ofynnol i berchennog gynnal gweithrediadau), neu
- (b) cais o dan adran 41 (cais am ad-dalu gwariant perchennog pan fo hysbysiad i gynnal gweithrediadau yn cael ei ganslo),

roi sylw i ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru wrth arfer swyddogaethau a roddir i’r person’

a mewnosoder –

‘PCAC roi sylw i ganllawiau a roddir gan Weinidogion Cymru wrth arfer swyddogaethau a roddir iddo’.

Delyth Jewell

86

Page 36, after line 19, insert a new section –

[] Civil sanctions

- (1) In this section, “the 2008 Act” means the Regulatory Enforcement and Sanctions Act 2008 (c. 13).
- (2) The Welsh Ministers may by regulations make any provision, in relation to an offence under this Act, that could be made under Part 3 of the 2008 Act (civil sanctions) if –
 - (a) the Authority was a regulator for the purposes of Part 3 of that Act, and
 - (b) the offence was a relevant offence in relation to the Authority for the purposes of Part 3 of that Act.
- (3) Sections 63 to 70 of the 2008 Act (guidance; exercise of powers; payment into Consolidated Fund) apply to provision made under this section as they apply to provision made under Part 3 of that Act.
- (4) Section 60(1) and (2) of the 2008 Act (consultation) apply to regulations under subsection (1) as they apply to an order under Part 3 of that Act.
- (5) For the purposes of subsections (3) and (4), references to a regulator in sections 60 and 63 to 70 of the 2008 Act are to be read as references to the Authority.’.

Tudalen 36, ar ôl llinell 19, mewnosoder adran newydd –

[] Sanctsiynau sifil

- (1) Yn yr adran hon, ystyr “Deddf 2008” yw Deddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sanctsiynau 2008 (p. 13).
- (2) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau wneud unrhyw ddarpariaeth, mewn perthynas â throedd o dan y Ddeddf hon, y gellid ei gwneud o dan Ran 3 o Ddeddf 2008 (sanctsiynau sifil) os oedd –
 - (a) yr Awdurdod yn rheoleiddiwr at ddibenion Rhan 3 o’r Ddeddf honno, a
 - (b) y drosedd yn drosedd berthnasol mewn perthynas â’r Awdurdod at ddibenion Rhan 3 o’r Ddeddf honno.
- (3) Mae adrannau 63 i 70 o Ddeddf 2008 (canllawiau; arfer pwerau; talu i mewn i Gronfa Gyfunol) yn gymwys i ddarpariaeth a wneir o dan yr is-adran hon fel y maent yn gymwys i ddarpariaeth a wneir o dan Ran 3 o’r Ddeddf honno.
- (4) Mae adran 60(1) a (2) o Ddeddf 2008 (ymgyngori) yn gymwys i reoliadau o dan is-adran (1) fel y maent yn gymwys i orchymyn o dan Ran 3 o’r Ddeddf honno.
- (5) At ddibenion is-adrannau (3) a (4), mae cyfeiriadau at reoleiddiwr yn adrannau 60 a 63 i 70 o Ddeddf 2008 i’w darllen fel cyfeiriadau at yr Awdurdod.’.

Janet Finch-Saunders

71

Section 74, page 37, after line 4, insert –

‘() section 3 (information, advice and assistance);’.

Adran 74, tudalen 37, ar ôl llinell 5, mewnosoder –

‘() adran 3 (gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy);’.

Huw Irranca-Davies

27

Section 74, page 37, after line 4, insert –

‘() section 10(5) (change to minimum number or period of inspections for category 1 tips or category 2 tips);’.

Adran 74, tudalen 37, ar ôl llinell 5, mewnosoder –

‘() adran 10(5) (newid yr isafswm o arolygiadau neu gyfnod arolygiadau ar gyfer tomenni categori 1 neu domenni categori 2);’.

Huw Irranca-Davies

28

Section 74, page 37, after line 4, insert –

‘() section 20(4), section 22(4) or section 29(3) (change to minimum period for making representations to the Authority);’.

Adran 74, tudalen 37, ar ôl llinell 5, mewnosoder –

‘() adran 20(4), adran 22(4) neu adran 29(3) (newid y cyfnod byrraf a ganiateir ar gyfer cyflwyno sylwadau i’r Awdurdod);’.



Janet Finch-Saunders

97

Section 74, page 37, after line 7, insert –

‘() section [section to be inserted by amendment 92] (offence of destabilising a disused tip);’.

Adran 74, tudalen 37, ar ôl llinell 8, mewnosoder –

‘() adran [adran i’w mewnosod gan welliant 92] (y drosedd o ansefydlogi tomen nas defnyddir);’.

Janet Finch-Saunders

96

Section 74, page 37, after line 7, insert –

‘() section [section to be inserted by amendment 93] (stop notices);’.

Adran 74, tudalen 37, ar ôl llinell 8, mewnosoder –

‘() adran [adran i’w mewnosod gan welliant 93] (hysbysiadau stop);’.

Delyth Jewell

87

Section 74, page 37, after line 8, insert –

‘() section [section to be inserted by amendment 86] (civil sanctions);’.

Adran 74, tudalen 37, ar ôl llinell 9, mewnosoder –

‘() adran [adran i’w mewnosod gan welliant 86] (sanctsiynau sifil);’.

Huw Irranca-Davies

29

Section 74, page 37, after line 10, insert –

‘(f) paragraph 2(4) of Schedule 1 (change to the number of members of the Authority);
(g) paragraph 19(10) of Schedule 1 (change to the period to which the Authority’s corporate plan relates);’.

Adran 74, tudalen 37, ar ôl llinell 11, mewnosoder –

‘(f) paragraff 2(4) o Atodlen 1 (newid i nifer aelodau’r Awdurdod);
(g) paragraff 19(10) o Atodlen 1 (newid i’r cyfnod y mae cynllun corfforaethol yr Awdurdod yn ymwneud ag ef);’.

Huw Irranca-Davies

30

Section 81, page 41, after line 16, insert –

‘(6) Before making regulations under subsection (5), the Welsh Ministers must consult such persons as they consider appropriate.’.

Adran 81, tudalen 41, ar ôl llinell 18, mewnosoder –

‘(6) Cyn gwneud rheoliadau o dan is-adran (5), rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â’r personau hynny y maent yn ystyried eu bod yn briodol.’.

Delyth Jewell 12

Section 82, page 41, after line 26, insert –

‘(h) serious threat by flood.’.

Adran 82, tudalen 41, ar ôl llinell 27, mewnosoder –

‘(h) bygythiad difrifol drwy lifogydd.’.

Delyth Jewell 13

Section 82, page 41, after line 26, insert –

‘(h) serious contamination of water.’.

Adran 82, tudalen 41, ar ôl llinell 27, mewnosoder –

‘(h) halogi dŵr yn ddifrifol.’.

Delyth Jewell 14

Gyda chefnogaeth / Supported by: Janet Finch-Saunders

Section 82, page 41, after line 26, insert –

‘(h) serious environmental harm.’.

Adran 82, tudalen 41, ar ôl llinell 27, mewnosoder –

‘(h) niwed amgylcheddol difrifol.’.

Delyth Jewell 15

Section 82, page 41, after line 26, insert –

‘(h) serious threat by fire.’.

Adran 82, tudalen 41, ar ôl llinell 27, mewnosoder –

‘(h) bygythiad difrifol drwy dân.’.

Janet Finch-Saunders 72

Page 41, after line 26, insert a new section –

[] Guidance on matters affecting human welfare

- (1) The Welsh Ministers must publish guidance about the circumstances which may constitute a threat to human welfare under section 82.
- (2) The Welsh Ministers may revise guidance published under subsection (1) and must publish the revised guidance.’.

Tudalen 41, ar ôl llinell 27, mewnosoder adran newydd –

[] Canllawiau ynghylch materion sy’n effeithio ar les pobl

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau ynghylch yr amgylchiadau a all fod yn fygythiad i les pobl o dan adran 82.
- (2) Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio canllawiau a gyhoeddir o dan is-adran (1) a rhaid iddynt gyhoeddi’r canllawiau diwygiedig.’.

Huw Irranca-Davies

31

Section 86, page 43, Table 1, after line 21, insert –

,

management plan (“ <i>cynllun rheoli</i> ”)	section [<i>section to be inserted by amendment 24</i>]
---	---

,

Adran 86, tudalen 43, Tabl 1, ar ôl llinell 21, mewnosoder –

,

cynllun rheoli (“ <i>management plan</i> ”)	adran [<i>adran i’w mewnosod gan welliant 24</i>]
---	---

,

Janet Finch-Saunders

73

Section 87, page 44, line 4, leave out subsections (2) to (4) and insert –

‘() The other provisions of this Act come into force on 1 April 2026.’.

Adran 87, tudalen 44, llinell 4, hepgorer is-adrannau (2) hyd at (4) a mewnosoder –

‘() Daw darpariaethau eraill y Ddeddf hon i rym ar 1 Ebrill 2026.’.

Delyth Jewell

1

Section 87, page 44, line 4, leave out ‘2027’ and insert ‘2026’.

Adran 87, tudalen 44, llinell 4, hepgorer ‘2027’ a mewnosoder ‘2026’.